

Arweiniad i'r Rhaglen Dysgu a Datblygu Gydol Oes Sut i gyflwyno cais am gymorth ariannol

Cynnwys

Sut ydw i'n gwneud cais ar gyfer Cyrsiau Hyfforddiant Achrededig Byr?	3
Cofrestru gyda Cyswilt Ffermio / Mewngofnodi i'r System BOSS	4
Cofrestru gyda BOSS am y tro cyntaf	5
Mewngofnodi i'r system BOSS ar ôl cofrestru gyda Sign on Cymru	6
Cyfnod Ymgeisio – ar agor neu ar gau	7
Creu eich Cais	8
Y Ffurflen Gais	9
Cyflwyno eich Cais	10
Tudalen 'Fy Ngheisiadau am Gymorth Ariannol'	11
Dychwelyd at Gais sydd wedi'i Arbed ond heb ei Gyflwyno	12
A yw fy nghais wedi cael ei gymeradwyo?	13
Statws: Crynodeb	14
Awgrymiadau Defnyddiol - Problemau Technegol	15-16
Awgrymiadau Defnyddiol – Mewngofnodi I BOSS	17-18
Awgrymiadau Defnyddiol - Mynediad i'r We	19
Awgrymiadau Defnyddiol - Problemau gyda'r Porwr	20
Awgrymiadau Defnyddiol – Sgwrsio Byw	21

Sut ydw i'n gwneud cais am gymorth ariannol ar gyfer Cyrsiau Hyfforddiant Achrededig Byr?

1. Mae'n rhaid i chi fod wedi cofrestru gyda Cyswilt Ffermio
2. Mae angen i chi gwblhau'r **Cynllun Datblygu Personol** ar lein cyn i chi allu cyflwyno cais am gymorth ariannol. Gellir gwneud hyn ar unrhyw adeg, nid oes rhaid ei gwblhau o fewn y cyfnodau ymgeisio.
3. Os ydych chi'n gwneud cais am gymorth ariannol i gwblhau cwrs o Gategori 3 – Defnyddio Peiriannau ac Offer, mae'n rhaid i chi gwblhau'r cwrs **lechyd a Diogelwch** ar lein cyn cyflwyno'r cais.
4. Siaradwch gyda'ch darparwr hyfforddiant lleol sydd wedi'i gymeradwyo ynglŷn â dyddiadau'r cyrsiau ac i gael gwybodaeth am y costau. MAE'N RHAID I CHI SICRHAU EICH BOD YN NODI'R GOST GYWIR AR GYFER Y CWRS AR Y FFURFLEN GAIS.
5. Ymgeisiwch ar lein ar gyfer cymorth ariannol yn ystod cyfnod ymgeisio gan ddefnyddio'r Ffurflen Gais ar lein.
6. Cewch eich hysbysu p'un a yw eich cymorth ariannol wedi ei gymeradwyo ai peidio. Mae'n rhaid i chi dderbyn caniatad ysgrifenedig cyn dechrau'r hyfforddiant
7. Unwaith y byddwch wedi derbyn cymeradwyaeth am gymorth ariannol, mae'n rhaid i chi dalu'r cyfraniad a gytunwyd (20% o gyfanswm cost y cwrs ar gyfer cyrsiau Categori 1 a 2, 60% o gyfanswm costau'r cwrs ar gyfer cyrsiau Categori 3) i'r darparwr hyfforddiant.

Cofrestru gyda Cyswllt Ffermio



Cofrestwch gyda Cyswllt Ffermio gan ddefnyddio'r ddolen isod. Yna gallwch gael mynediad at y Rhaglen Dysgu a Datblygu Gydol Oes;

<https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/ffurflen-gofrestru-cyswllt-ffermio>

Mewngofnodi i'r system BOSS

Mae'r system BOSS yn eich galluogi i gael mynediad at holl ddeunydd Cyswllt Ffermio. Gallwch hefyd greu Cynllun Datblygu Personol. Mae hwn yn adnodd defnyddiol a fydd yn monitro eich cynnydd trwy gydol y rhaglen ac mae'n bersonol i chi. Gallwch ei ddiweddarau ar unrhyw adeg, gan ddangos eich datblygiad personol wrth i'ch gwybodaeth gynyddu. Gellir cael mynediad at y system BOSS trwy ddefnyddio'r ddolen isod;

<https://businesswales.gov.wales/boss/?lang=cy>

PEIDIWCH â cheisio a chofrestru ar y system BOSS hyd nes y byddwch wedi derbyn eich e-bost cofrestru unigol o'r Ganolfan Gwasanaeth a fydd yn cadarnhau eich manylion BOSS (yn dilyn eich cofrestriad gyda Cyswllt Ffermio). Bydd yr e-bost hwn yn cynnwys manylion y gellir eu defnyddio i LOG IN i BOSS trwy SOC (Arwydd Ar Gymru).

Sylwer: Ar SOC mae'r cwsmer yn creu eu cyfrinair eu hunain a bydd angen iddynt

cyfeiriad e-bost fel yr enw defnyddiwr.



Cofrestru gyda BOSS am y tro cyntaf

Cofrestrwch gan ddefnyddio'r un cyfeiriad e-bost a wnaethoch ddefnyddio i gofrestru gyda Cyswilt Ffermio er mwyn medru mewngofnodi i BOSS am y tro cyntaf.

Ewch i hafan BOSS <https://businesswales.gov.wales/boss>

Cliciwch ar **Mewngofnodi i SOC** – Fe'ch trosglwyddir i ryngwyneb SOC

- Cliciwch ar Mewngofnodi gyda SOC
- Nodwch y cyfeiriad ebost yr anfonwyd y neges hon ato, a chliciwch **Send verification code**
- Anfonir y cod dilysu at y cyfeiriad e-bost a gofrestrwyd gennych ar BOSS
- Rhowch eich cod yn y maes cod dilysu priodol ar y ffurflen SOC
- Nodwch eich cyfrinair newydd a chadarnhewch hyn yn yr ail faes
- Cliciwch Parhau, fe'ch trosglwyddir i dudalen proffil BOSS, gall hyn gymryd sawl eiliad
- Cwblhewch yr holl feysydd gorfodol a chliciwch i arbed, yna fe'ch trosglwyddir i ddangosfwrdd BOSS, sy'n dangos eich hanes dysgu presennol a'ch gwybodaeth gysylltiedig.

Mewngofnodi i'r system BOSS ar ôl cofrestru gyda Sign On Cymru

- Wrth ddefnyddio'r un cyfeiriad e-bost a wnaethoch ddefnyddio i gofrestru â BOSS a Cyswllt Ffermio, mewngofnodwch yma a nodwch eich cyfrinair
<https://businesswales.gov.wales/boss/>

Uywodaeth Cymru
Welsh Government

Sign On Cymru

Mewngofnodi / Login

Email Address

Password [Forgot your password?](#)

Sign in

Don't have an account? [Sign up now](#)

Cysylltwch â ni / Connect with us Tanysgrifio i ebost / Newsletter subscribe Llinell gymorth / Helpline

Statws Cyfnod Ymgeisio – Ar Agor neu Ar Gau?

Gweler isod **Dudalen** Hafan Cyswllt Ffermio a fydd yn ymddangos unwaith y byddwch wedi mewngofnro



Croeso I Cyswllt Ffermio

Croeso i'n platform e-ddysgu Cyswllt Ffermio newydd. Yma, gallwch gofnodi eich holl weithgareddau dysgu a hyfforddi ac edrych yn ôl ar effaith y dysgu hwnnw.

Caniatewch amser i chi a'r staff cyflogedig hynny i ddatblygu, a chofiwch fod dysgu'n gallu bod yn hwyl.

Os mai dyma eich ymweliad cyntaf, mae'n bosib yr hoffech edrych ar [ein cyflwyniad fideo yma](#).

Bydd hefyd angen i chi gwblhau'r cwrs dysgu lechyd a Diogelwch rhyngweithiol, fel amod o dderbyn cymorth ariannol ar gyfer cyrsiau defnyddio peiriannau ac offer. [Gallwch ddod o hyd iddo yma](#).

Cyfarwyddiadur Cyrsiau

Gan ddevis y categori cwrs isod, fyddwch yn gallu gweld y rhestr llawn o gyrsiau sydd ar gael yn y categori yna. Os chi yw'r unigolyn cyntaf i gofrestru o'ch busnes, mi fydd angen cwblhau y cwrs 'Am Eich Busnes' cyn dechrau eich dysgu.

[Ehangu'r cyfan](#)

- cyswllt Ffermio (84)
- Syniadau Busnes ac Arloesi (19)
- Cyllid (15)
- TG (4)
- Marchnata (17)
- Sgiliau a Hyfforddiant (2)
- Dechrau a Chynllunio Busnes (45)

Chwilio'r cyrsiau: Mynd

Fy nghyrsiau

Gweinyddiaeth

- Fy ngosodiadau profil

Cynnod Ymgeisio am Gymorth Ariannol

Mae'r cynnod ymgeisio ar hyn o bryd: Ar agor

Bydd y cynnoduymgeisio yn cau ar Thursday, February 23, 2017 am 19:00

Ceisiadau Blaenorol ar gyfer Cymorth Ariannol

Cwrs	Statws
Technegau Wlyna	Heb ei gyflwyno
Cynnal a Chadw Llif Gadwyn a Thrawslifio	Ar waith
Canfod a recriwio'r bobl iawn	Ar waith
Arwain a Rheoli	Ar waith

Gweld pob cais

Creu cais newydd

Mae hwn yn dangos p'un a yw cyfnod ymgeisio ar agor neu ar gau ar hyn o bryd, a bydd hefyd yn dangos pan fo cyfnod ar fin agor neu gau

Mae hwn yn dangos crynodeb o'ch Ceisiadau Hanesyddol. Bydd eich ceisiadau diweddaraf yn ymddangos yn y blwch yma ynghyd â'u statws

I weld eich ceisiadau'n fwy manwl, cliciwch **'Gweld pob cais'** (wedi'i fframio mewn oren). Bydd hyn yn mynd â chi i'r dudalen **'Fy ngheisiadau am gymorth ariannol'**

Cliciwch yma i greu cais newydd (gweler y dudalen nesaf am fanylion pellach)

NODER: Rhaid i'r statws ddangos **'Wedi'i Gymeradwyo'** cyn sicrhau cymorth ariannol



Creu eich Cais am Gymorth Ariannol

Unwaith y byddwch wedi clicio **'Creu cais newydd'** (wedi'i fframio'n las ar y dudalen flaenorol), bydd y sgrîn isod yn ymddangos

Darllenwch bob pwynt yn **ofalus** (wedi'i fframio'n oren)

Cais am gymorth ariannol (1/3)

- Ydych chi wedi cwblhau eich Cynllun Datblygu Personol (PDP) yn gywir, hynny yw, wedi nodi eich nodau personol neu nodau'r busnes gan gynnwys darparu teitl y nod, disgrifiad perthnasol i'r nod a nodi'r cwrs (neu gyrsiau) rydych ei angen?
- Os ydych yn gwneud cais am gymorth ariannol ar gyfer cwrs Defnyddio Peiriannau ac Offer, ydych chi wedi cwblhau'r cwrs lechyd a Diogelwch (H&S) ar-lein ar y BOSS?
- Ydych chi wedi cysylltu gyda'ch darparwr hyfforddiant dewisol i wirio ei argaeledd ac i drafod ai dyma'r cwrs mwyaf addas i chi?
- Ydych chi wedi cael union gost y cwrs gan eich darparwr hyfforddiant dewisol? (**Noder, ni all y gost yma gael ei ddiwygio yn ddiweddarach**).
- OS NAD YDYCH WEDI CWBLHAU CYNLLUN DATBLYGU PERSONOL CYN CYFLWYNO EICH FFURFLEN CAIS, NI FYDD EICH CAIS YN CAEL EI BROSESU

Bwrw ymlaen


Canslo

Os ydych wedi cwblhau **POB** pwynt, cliciwch y botwm **'Bwrw ymlaen'** (porffor) er mwyn parhau gyda'ch cais

NODER: PEIDIWCH Â parhau gyda'ch cais os na allwch ateb **YDW** i **BOB** cwestiwn. Ewch yn ôl a chwblhau'r pwyntiau nad ydych wedi'u cwblhau cyn dychwelyd i'r dudalen hon i fwrw ymlaen.

Y Ffurflen Gais

Unwaith y byddwch wedi clicio'r botwm 'Bwrw ymlaen' (mewn porffor ar y dudalen flaenorol) – byddwch yn gallu gweld y sgrîn isod. Dyma'r Ffurflen Gais



1 Dewiswch y cwrs yr ydych yn dymuno ymgeisio amdano o'r rhestr

2 Bydd categori'r cwrs yn cael ei gwblhau'n awtomatig

3 Dewiswch y Darparwr Hyfforddiant Cymeradwy a ddeiswyd gennych o'r rhestr - os nad yw eich Darparwr yn ymddangos, cysylltwch â Cyswilt Ffermio

4 Rhowch gyfanswm cost eich cwrs heb gynnwys TAW. Bydd eich Darparwr Hyfforddiant wedi rhoi hwn i chi

5 Dim ond os ydych chi'n Contractwr neu'n Fyfyriwr fydd y blwch yma'n ymddangos.
Contractwr–
• Rhowch Rif Cyfeirnod Unigryw y busnes yr ydych yn gweithio gyda hwy
Myfyriwr –
• Rhowch enw'r sefydliad academaidd lle'r ydych yn astudio
• Rhowch enw'r cwrs yr ydych yn ei astudio

6 Cliciwch 'Cadw'r newidiadau' (mewn pinc) er mwyn arbed y cais unwaith y byddwch wedi cwblhau pob maes – Bydd hyn yn arbed eich cais ar y system ac yn mynd â chi i'r sgrîn ar y dudalen nesaf er mwyn **Cyflwyno eich cais**

6 Rhowch ddisgrifiad sut fydd cwblhau'r cwrs yma'n fanteisiol i chi o ran datblygiad personol/busnes.

Cyflwyno eich Cais

Cais am gymorth ariannol (3/3)

Rwyf i/rydym ni yn datgan, hyd eithaf fy ngwybodaeth/ein gwybodaeth, bod yr wybodaeth a roddwyd wrth gofrestru ac ymgeisio yn wir ac yn gywir. Rydw i/rydym ni yn cadarnhau fy mod i/ein bod ni wedi darllen a derbyn yr amodau yn y Nodyn Rheolau ac Arweiniad y Gwasanaeth a'r datganiad Deddf Diogelu Data/Nodyn Prosesu Teg. Rydw i/rydym ni yn cadarnhau fy mod/ein bod wedi hysbysu Cyswilt Ffermio yn ysgrifenedig am unrhyw newidiadau i'r manylion a roddwyd wrth gofrestru. Nid wyf/rydym wedi derbyn, ac nid ydym yn bwriadu hawlio cefnogaeth gan unrhyw ffynhonnell arall sydd ar gael gan y Pwyllgorau Ewropeaidd, Llywodraeth Cymru, neu gyrrff sy'n cynnal gweithgareddau cyhoeddus o fewn y DU yng nghyd-destun y gwaith a nodir ar y ffurflen hon.

Mae meysydd gorfodol yn y ffurflen hon wedi eu marcio â *.

Ar ddyddiad cyflwyno'r ffurflen gais, ticiwch yma os ydych dan 40 mlwydd oed

Rwy'n cytuno â'r datganiad uchod*

Cyflwyno Canslo

2

Mae'n rhaid i chi ddarllen a chytuno â'r datganiad hwn cyn cyflwyno unrhyw gais – gallwch gytuno â'r datganiad trwy glicio yn y blwch bychan (mewn glas) – bydd tic bychan yn ymddangos yn y blwch

3

Os ydych yn barod i gyflwyno dylech glicio ar y botwm 'Cyflwyno' (wedi'i amlygu'n oren), a byddwch wedyn yn mynd i'r dudalen 'Fy ngheisiadau am gymorth ariannol' (fel y gwelir ar y sgrîn ganlynol).

1

Defnyddir hwn i ddatgan a ydych dan 40 mlwydd oed ar ddyddiad cyflwyno'r cais – os ydych **DAN 40 mlwydd oed**, cliciwch yn y blwch bychan (wedi'i amlygu mewn pinc) – bydd tic bychan yn ymddangos yn y blwch. **PEIDIWCH Â** rhoi tic yn y blwch os ydych **dros 40 mlwydd oed**.

Os nad ydych yn barod i gyflwyno'r cais, gallwch glicio 'Canslo' ar y cam hwn (wedi'i amlygu mewn melyn) a bydd y cais yn cael ei arbed. **Bydd y statws yn dangos 'Heb ei Gyflwyno' ar y Dudalen Hafan.** Gallwch ddychwelyd at y cais a'i gyflwyno'n hwyrach – mae'n **RHAID** gwneud hyn yn ystod Cyfnod Ymgeisio. Os nad yw'r cais yn cael ei gyflwyno **NI FYDD** yn cael ei ystyried ar gyfer Cymeradwyaeth a bydd yn cael ei **ddileu'n awtomatig** ar ddiwedd cyfnod ymgeisio.

Tudalen 'Fy Ngheisiadau am Gymorth Ariannol'

Bydd y dudalen hon yn dangos y ceisiadau newydd a gyflwynwyd gennych. Bydd yr holl geisiadau newydd yn dangos statws 'Ar waith' (mewn coch)

Gallwch glicio ar y botwm 'Yn ôl i'r Hafan' (mewn glas) i fynd â chi'n ôl i Dudalen Hafan Cyswllt Ffermio

Fy ngheisiadau ar gyfer cymorth ariannol

Cwrs	Darparwr Hyfforddiant	Cost	Statws	Cyflwynwyd ar	Terfyn	
Technegau Wyna	XLVet Training Services Ltd	£850.00	Heb ei gyflwyno	—	—	⚙️ ✓
Cynnal a Chadw Llif Gadwyn a Thrawslifio	NPTC Group	£1500.00	Ar waith	23-02-2017 09:55	—	
Canfod a recriwtio'r bobl iawn	Engage Training / Bridgend College	£1500.00	Ar waith	23-02-2017 09:51	—	
Arwain a Rheoli	AARTIC Training Services	£500.00	Ar waith	23-02-2017 09:50	—	

Creu cais newydd Yn ôl i'r hafan

Ar yr amod nad oes unrhyw broblemau clir yn ymwneud â chwblhau'r ffurflen gais, bydd y statws yn parhau i ddangos 'Ar Waith' nes i'r Cyfnod Ymgeisio ddod i ben a bod Cyswllt Ffermio'n cyhoeddi'r penderfyniadau ar gyfer yr holl geisiadau.

Dychwelyd at Gais sydd wedi'i Arbed ond heb ei Gyflwyno



Os ydych wedi **arbed** caus ond **heb ei gyflwyno**- bydd statws '**Heb ei gyflwyno**' yn ymddangos (mewn oren isod). Gallwch gyrraedd unrhyw **geisiadau sydd wedi'u harbed on heb eu cyflwyno** un ai o'r

- Dudalen Hafan neu'r
- Dudalen Cais am Gymorth Ariannol

Home Screen

Croeso i Cyswilt Ffermio

Croeso i'n plattform e-ddysgu Cyswilt Ffermio newydd. Yma, gallwch gofnodi eich holl weithgareddau dysgu a hyfforddi ac edrych yn ôl ar effaith y dysgu hwnnw.

Caniatewch amser i chi a'r staff cyflogedig hynny i ddatblygu, a chofwch fod dysgu'n gallu bod yn hwyl.

Os mai dyma eich ymweliad cyntaf, mae'n bosib yr hoffech edrych ar ein **cyflwyniad fideo yma**.

Bydd hefyd angen i chi gwblhau'r cwrs dysgu lechyd a Diogelwch rhyngweithiol, fel amod o dderbyn cymorth ariannol ar gyfer cyrsiau defnyddio peiriannau ac offer. **Gallwch ddod o hyd iddo yma.**

Cyfarwyddiadur Cyrsiau

Gan ddechwis y categori cwrs isod, fyddwch yn gallu gweld y rhestr llawn o gyrsiau sydd ar gael yn y categori yna. Os chi yw'r unigolyn cyntaf i gofrestru o'ch busnes, mi fydd angen cwblhau y cwrs 'Am Eich Busnes' cyn dechrau eich dysgu.

Chwilio'r cyrsiau: Mynd

Fy nghyrsiau

- ▶ cyswilt Ffermio (84)
- ▶ Syniadau Busnes ac Artoesi (19)
- ▶ Cyllid (15)
- ▶ TG (4)
- ▶ Marchnata (17)
- ▶ Sgiliau a Hyfforddiant (2)
- ▶ Dechrau a Chynllunio Busnes (45)

Gweinyddiaeth

- Fy ngosodiadau profil

Cynfnod Ymgaisio am Gymorth Ariannol

Mae'r cynfnod ymgaisio ar hyn o bryd: Ar agor

Bydd y cynfnodymgaisio yn cau ar Thursday, February 23, 2017 am 19:00

Ceisiadau Blaenorol ar gyfer Cymorth Ariannol

Cwrs	Statws	
Technegau Wŷna	Heb ei gyflwyno	
Cynnal a Chadw Llif Gadwyn a Thrawslifio	Ar waith	
Canfod a recriwtio'r bobl iawn	Ar waith	
Arwain a Rheoli	Ar waith	

Gweld pob cais
Creu cais newydd

Er mwyn golygu'r wybodaeth sydd yn eich cais presennol, cliciwch ar yr icon cog – gallwch symud ymlaen i'r dudalen gyflwyno o'r fan honno

Er mwyn mynd yn ôl yn uniongyrchol i'r dudalen gyflwyno, cliciwch ar yr icon 'tic'

Funding Application Page

Fy ngheisiadau ar gyfer cymorth ariannol

Cwrs	Darparwr Hyfforddiant	Cost	Statws	Cyflwynwyd ar	Terfyn
Technegau Wŷna	XLvet Training Services Ltd	£850.00	Heb ei gyflwyno	—	
Cynnal a Chadw Llif Gadwyn a Thrawslifio	NPTC Group	£1500.00	Ar waith	23-02-2017 09:55	—
Canfod a recriwtio'r bobl iawn	Engage Training / Bridgend College	£1500.00	Ar waith	23-02-2017 09:51	—
Arwain a Rheoli	AARTIC Training Services	£500.00	Ar waith	23-02-2017 09:50	—

Creu cais newydd Yn ôl i'r hafan

A yw fy nghais wedi cael ei gymeradwyo?

Unwaith y bydd Cyswllt Ffermio wedi asesu pob cais, byddwch yn gallu gweld a yw eich cais wedi bod yn llwyddiannus ai peidio trwy edrych ar ei statws.

Unwaith eto, gellir cyrraedd y fan hon o'r 'Dudalen Hafan' neu'r dudalen 'Fy Ngheisiadau am Gymorth Ariannol'.

Cost	Statws	Cyflwynwyd ar	Terfyn
£850.00	Wedi'i ganslo	—	—
£1500.00	Wedi'i gymeradwyo	23-02-2017 09:55	23-11-2017
£1500.00	Heb ei gymeradwyo	23-02-2017 09:51	—
£500.00	Wedi'i gymeradwyo	23-02-2017 09:50	23-11-2017 10:14

Statws: Heb ei gymeradwyo/wedi'i ganslo – mae eich cais wedi bod yn aflwyddiannus

Ni chafodd y cais ei gymeradwyo: Yn anffodus nid yw'r cais am gymorth ariannol wedi ei gymeradwyo gan nad ydych wedi darparu gwybodaeth ddigonol o fewn yr adran Nodau yn eich Cynllun Datblygu Presennol i ddangos sut fyddai cwblhau'r cwrs hyfforddiant yn cyfrannu tuag at ddatblygiad personol.

Os bydd statws eich cais '**Wedi'i Ganslo**' neu '**Heb ei Gymeradwyo**' byddwch yn gweld icon bychan (wedi'i amlygu mewn oren) wrth ochr manylion eich cais. Defnyddiwch eich pwyntydd i **hofran** dros yr icon – bydd hwn yn dangos y rheswm pam fod eich cais wedi bod yn aflwyddiannus

Statws: Wedi'i gymeradwyo – mae eich cais wedi bod yn llwyddiannus. Nawr bydd angen i chi gwblhau eich hyfforddiant **cyn y dyddiad terfyn a ddangosir** (9 mis or dyddiad cymeradwyo)

Statws: Crynodeb...

Statws	Beth mae'n ei olygu
Ar waith	Mae eich cais wedi cael ei gyflwyno i'w assesu gan Cyswllt Ffermio – caniatewch hyd at dair wythnos wedi i'r cyfnod ymgeisio ddod i ben cyn clywed canlyniad eich cais os gwelwch yn dda
Heb ei Gyflwyno	Nid yw eich cais wedi cael ei gyflwyno hyd yn hyn – bydd angen i chi ail-edrych ar eich cais er mwyn ei addasu neu ei gyflwyno cyn diwedd y Cyfnod Ymgeisio. Bydd yn cael ei ddileu'n awtomatig unwaith y bydd y Cyfnod Ymgeisio wedi cau
Wedi'i Gymeradwyo	Mae eich cais am gymorth ariannol wedi'i gymeradwyo – mae'n rhaid i chi gwblhau'r hyfforddiant cyn y dyddiad terfynol
Wedi'i Ganslo	Nid yw eich cais am gymorth ariannol wedi'i gymeradwyo
Heb ei gymeradwyo	Nid yw eich cais am gymorth ariannol wedi'i gymeradwyo

Awgrymiadau Denfyddiol – Problemau Technego



Mae'r dudalen hon yn dangos sut i fynd i'r afael â phroblemau technegol yn y safle BOSS ei hun. Os oes gennych broblemau mewngofnodi yn y lle cyntaf, gallai fod yn fanteisiol i chi edrych ar y Cwestiynau Cyffredin yma a sut i gysylltu â'r tîm BOSS.

1. Cliciwch ar y geiriau “Cwestiynau Cyffredin”, a bydd y sgrin ar y sleid nesaf yn ymddangos.

Awgrymiadau Denfyddiol – Problemau Technego



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

Fel y gwelwch, mae dau glic arall wedi'u gwneud. Un ar y gair 'Technegol' (!) ac un ar y frawddeg; '1. Pam nad ydw i'n gallu gweld cynnwys y cwrs? (Rhwystwr Ffenestr Naid) (2). Gallai hyn eich cynorthwyo os ydych yn cael trafferth hyd yn oed i weld y cynnwys.

Cwestiynau Cyffredin

1. **Beth ydi BOSS?**
2. **Sut mae cael mynediad i gyrsiau BOSS?**
3. **Technegol**

1. Pam nad ydw i'n gallu gweld cynnwys y cwrs? (Rhwystwr Ffenestri Naid)

Pan fyddwch yn clicio i agor cwrs BOSS am y tro cyntaf efallai y bydd neges yn codi yn dweud 'Ffenestr Naid Wedi'i Rhwystro'. Meddalwedd sy'n rhwystro ffenestri naid rhag ymddangos ar wefan yw rhwystwr ffenestri naid. I gael gwybod sut i ddiffodd eich rhwystwr ffenestri naid cliciwch yma.

2. Sut mae cau ffenestr?
3. Beth ydi bathodyn agored?
4. Beth ydi 'pac cefn'?
5. Pa borwyr gwe fydddech chi'n argymhell i mi eu defnyddio gyda BOSS?

4. **Cymhwyster a Mynediad**
5. **Cymorth**
6. **Cyrsiau**

1

2

Awgrymiadau Defnyddiol – Mewngofnodi i BOSS



Gwefan gan Lywodraeth Cymru yw system BOSS, sy'n cael ei ddefnyddio gan sawl gwahanol sector.

Sign On Cymru yw'r ffordd newydd o fewngofnodi ar BOSS, a gafodd ei gyflwyno ar 23 Awst 2018.

Noder: Os hoffech ddiweddarau eich PDP, cael mynediad at eich cofnod CPD, cwblhau cyrsiau e-ddysgu rhyngweithiol, a/neu ymgeisio am gysiau hyfforddiant achrededig yn ystod y cyfnod ymgeisio, bydd angen i chi sicrhau eich bod wedi gwirio'ch cyfrif – gweler isod os ydych yn dod ar draws anawsterau wrth fewngofnodi.

A screenshot of the 'Sign On Cymru' login page. The page has a dark grey header with the Welsh Government logo and 'Llywodraeth Cymru Welsh Government'. Below this is a red banner with 'Sign On Cymru' in white. The main content area is light grey and contains the heading 'Mewngofnodi / Login'. A dark grey login box contains an 'Email Address' field, a 'Password' field with a 'Forgot your password?' link, a red 'Sign In' button, and a link for 'Don't have an account? Sign up now'. The footer is dark grey and contains three links: 'Cysylltwch â ni / Connect with us', 'Tanysgrifio i ebost / Newsletter subscribe', and 'Llinell gymorth / Helpline'. The page number '17' is visible in the bottom right corner.

Awgrymiadau Defnyddiol – Mewngofnodi i BOSS



Sicrhewch fod gennych fynediad at y cyfeiriad e-bost a ddefnyddiwyd gennych i gofrestru gyda Cyswllt Ffermio.

Rydym yn cyngori'n gryf yn erbyn defnyddio cyfeiriad e-bost gwahanol, oherwydd wrth wneud hyn byddwch yn creu cyfrif newydd na fydd yn trosglwyddo'ch cofnod hyfforddiant, eich cofnod CPD na'ch cynllun datblygu personol (PDP).

Bydd Sign On Cymru yn eich galluogi i gael mynediad at holl wasanaethau ar-lein Busnes Cymru, gan gynnwys eich cyfrif ar-lein gyda Cyswllt Ffermio wrth ddefnyddio un enw defnyddiwr a chyfrinair yn unig.

Os ydych yn parhau i gael anawsterau technegol wrth fewngofnodi, cysylltwch â Chanolfan Gwasanaethau Cyswllt Ffermio ar 08456 000 813 (9:00 am – 5:00 pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener) ac eithrio diwrnodau gwyliau cyhoeddus.

Awgrymiadau Defnyddiol – Mynediad i'r We

Os nad oes gennych fynediad i'r we, bydd rhwydwaith o ddarparwyr hyfforddiant, ar gael ar wefan Cyswllt Ffermio

<https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/hyfforddiant> a fydd yn gallu eich cynorthwyo gyda chwblhau PDP.

Gallwch hefyd holi eich Swyddog Datblygu Lleol a fydd yn gallu eich cynorthwyo i ganfod lleoliadau lleol gyda mynediad i'e we. Bydd Cyswllt Ffermio hefyd yn cynnal nifer o ddigwyddiadau lle bydd posib cwblhau'r PDP mewn lleoliadau ledled Cymru sydd â mynediad i'r we. Bydd mwy o wybodaeth ynglŷn â'r digwyddiadau hyn ar gael maes o law.



Awgrymiadau Defnyddiol – Mynediad i'r We

Os nad oes gennych fynediad i'r we, bydd rhwydwaith o ddarparwyr hyfforddiant, ar gael ar wefan Cyswllt Ffermio

<https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/hyfforddiant> a fydd yn gallu eich cynorthwyo gyda chwblhau PDP.

Gallwch hefyd holi eich Swyddog Datblygu Lleol a fydd yn gallu eich cynorthwyo i ganfod lleoliadau lleol gyda mynediad i'e we. Bydd Cyswllt Ffermio hefyd yn cynnal nifer o ddigwyddiadau lle bydd posib cwblhau'r PDP mewn lleoliadau ledled Cymru sydd â mynediad i'r we. Bydd mwy o wybodaeth ynglŷn â'r digwyddiadau hyn ar gael maes o law.



Awgrymiadau Defnyddiol – Problemau gyda'r Porwr



Os oes gennych broblemau gyda'ch Porwr, mae'r system BOSS yn gweithio orau ar Google Chrome, felly gallai fod yn fanteisiol i chi lawr lwytho'r porwr hwn, ac mae'n hawdd ac am ddim i wneud hynny. <https://www.google.com/chrome/index.html>.

Mae'r Porwr yn gweithredu fel mynediad i'r rhyngrwyd. Mae pob porwr ychydig yn wahanol, ond maent yn eich galluogi i 'bori'r' we a chael mynediad at wefannau amrywiol.

Os oes gennych ddyfais Windows, bydd gennych raglen pori o'r enw Internet Explorer.

Os oes gennych ddyfais Apple, byddwch yn defnyddio porwr o'r enw Safari.

Mae sawl porwr arall hefyd ar gael megis Google Chrome a Mozilla Firefox.

Awgrymiadau Defnyddiol – Sgwrsio Byw

Os oes gennych gwestiwn technegol, fe welwch saeth mewn blwch melyn ar waelod y sgrîn ar y chwith sy'n dweud "Angen Cymorth". Cliciwch ar y saeth ar i fyny ar y dde (1) a byddwch yn gallu cael mynediad at Sgwrsio Byw gyda'r tîm cefnogi rhwng 9 a 5. Os ydych yn cwblhau PDP tu allan i'r oriau hyn, byddant yn ymateb i chi cyn gynted â phosib.

